COEDANA
RHODOGEIDIO
LLANNERCH-Y-MEDD

# Cyngor Cymdeithas LLANNERCH-Y-MEDD Community Council

## CYLCH GORCHWYL IS BWYLLGOR SAFLEOEDD

**1. Cyflwyniad**

Pwrpas yr Is Bwyllgor hwn yw sicrhau bod y Cyngor Llawn yn gallu rhoi sylw ychwanegol i faterion Safleoedd. Bydd y Pwyllgor yn cwrdd pob chwarter (neu yn amlach fel bo'r angen) i drafod materion a nodi'r isod. Bydd gan y Pwyllgor rym i wneud penderfyniadau ar ran y Pwyllgor Llawn yn unol â Rheolau Statudol y Cyngor. Bydd yr Is Bwyllgor yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Cyngor Llawn.

**2. Pŵer Dirprwyedig gan y Cyngor Llawn**

- Defnyddir Rheolau Sefydlog y Cyngor yn sylfaen i weithrediadau'r Pwyllgor

- Wrth sefydlu'r Pwyllgor hwn mae'r Cyngor Llawn yn cytuno i roi pŵer dirprwyedig iddo i weithredu'n addas ar faterion o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Lle ystyrir bod materion ar lefel o bwysigrwydd y Cyngor Llawn, yn dilyn unrhyw gyfarfod, dylid adrodd i Gadeirydd y Cyngor Llawn er cymeradwyaeth cyn gweithredu, gan mai'r Cyngor Llawn sy'n cadw'r cyfrifoldeb am weithrediadau'r Pwyllgor.

- Mae gan y Cyngor Llawn hawl i ddiwygio pŵer dirprwyedig a'r Cylch Gorchwyl fel bo'r angen.

**3. Aelodaeth**

- Cadeirydd y Cyngor Llawn
- 6 Cynghorydd

Bydd y Pwyllgor yn cael ei wasanaethu gan y Clerc.

**4.** Cw**orwm**

- 3 aelod o'r Pwyllgor a benodwyd yn bresennol

**5. Pleidleisio**

- Bydd y Pwyllgor yn gweithredu ar sail consensws. Os bydd anghytundeb rhwng aelodau'r Pwyllgor bydd y mater yn cael ei adrodd i'r Cyngor Llawn i'w ddatrys.

**6. Amlder y Cyfarfodydd**

Mis olaf pob chwarter cyn y Pwyllgor Llawn.

**7. Pwerau/Dyletswyddau**

i) Adolygu cynnal a chadw priodol ar holl safleoedd y Cyngor

ii) Adolygu rhent pob eiddo yn rheolaidd

iii) Goflau am ofynion iechyd a diogelwch y safleoedd

iv) Gofalu am yswiriant priodol ar holl eiddo’r a safleoedd y Cyngor

v) Sicrhau gwerth am arian wrth weithredu’r gofynion uchod a hynny yn unol â Rheolau Cyllidol y Cyngor

vi) Gweithredu yn unol â Rheolau Sefydlog y Cyngor

**8. Cefnogaeth Weinyddol**

- Clerc y Cyngor Llawn i ddarparu cefnogaeth weinyddol
- Cofnodion a rhestr o unrhyw weithrediadau i’w cyflwyno i gyfarfod canlynol y Cyngor Llawn.

Dyddiad creu: Mehefin 2016 v 0.1

Adolygwyd 18.03.19 v 0.2